

Cynllun Cynefin
Cymorth Cynllunio Cymru

# GWEITHREDU CYMUNEDOL:

## Gweithredu ac Ysbrydoli

Canllawiau Cymunedol
Cynllun Cynefin Kickstarter 5/6

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru

# GWEITHREDU CYMUNEDOL:

Canllawiau Cymunedol Cynllun Cynefin Kickstarter 5/6

## Beth yw'r ddogfen hon?

Mae'r canllaw hwn yn archwilio sut y gall Gweithgorau weithredu Kickstart a mathau eraill o gynlluniau.

Mae hefyd yn archwilio astudiaethau achos ar ystod eang o brosiectau dan arweiniad y gymuned i helpu i ysbrydoli datblygiad prosiectau yn seiliedig ar y blaenoriaethau cymunedol sydd wedi'u hadnabod.

Paratowyd y canllaw hwn gan Gymorth Cynllunio Cymru ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel rhan o'r prosiect 'Cynllun Cynefin Kickstarter' gydag arian gan Gronfa Adnewyddu Cymunedol Llywodraeth y DU Cymru.

## Ar gyfer pwy y mae o?

Mae'r canllaw hwn wedi'i gynllunio ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref a / neu grwpiau cymunedol yng Nghonwy sydd naill ai:

- Wedi cwblhau Cynllun Cynefin Kickstarter ac yn ystyried y camau nesaf, neu:
- Yn ystyried cynhyrchu rhyw fath o gynllun cymunedol ac maen nhw'n pendroni ble i ddechrau.

Mae'r canllaw yn rhan o gyfres sy'n archwilio cynllunio dan arweiniad y gymuned; Gellir lawrlwytho'r canllawiau hyn o **www.placeplans.org.uk/conwyguides**

**Diolchiadau**

Diolch yn fawr i Resources 4 Change ar gyfer Cefnogi Cynhyrchu'r Canllaw hwn – gweler https://r4c.org.uk/

Resources FOR CHANGE

# Cynnwys

**Beth yw Gweithredu Cymunedol? .....................................444**

**Gweithredu Cynllun ……………………………………………6**

Rôl y Gweithgor ........................................................................................ 666

Dyfodol y Gweithgor.................................................................................. 777

Ymgynghori ar y Cynllun Kickstarter ................................................... 7 77

Cyflawni camau gweithredu a monitro cynnydd .................................................... 88

Dyfodol y Cynllun ....................................................................................... 88

**Ysbrydoliaeth.............................................................................999**

# Beth yw Gweithredu Cymunedol?

Yn draddodiadol, roedd cymunedau yn grŵp o bobl yn byw yn yr un lle. Mae ffactorau sy'n amrywio o berchnogaeth ceir i globaleiddio i gynnydd y rhyngrwyd a chyfryngau cymdeithasol yn golygu nad yw 'cymunedau' bellach wedi'u cyfyngu'n llym gan leoliad; mae grwpiau o bobl sydd â nodweddion, agweddau neu ddiddordebau penodol hefyd yn ystyried eu hunain yn gymunedau.

At ddibenion y canllaw hwn, mae cymunedau'n cael eu diffinio fel pawb sy'n byw o fewn ffin Cyngor Tref. Fodd bynnag, dylid cydnabod (a dathlu) na fydd pob person o fewn y cymunedau hyn yn rhannu'r un teimladau o ran hunaniaeth, gwerthoedd neu farn.

Mae **Gweithredu Cymunedol** yn golygu unrhyw weithgaredd sy'n grymuso, yn ymgysylltu neu'n cynyddu dealltwriaeth cymunedau o'u hardal leol; gall ddigwydd ar ffurf cynlluniau, prosiectau, gwasanaethau neu ddigwyddiadau a gweithgareddau sy'n dod â phobl ynghyd.

Mae Gweithredu Cymunedol yn werthfawr oherwydd:

- Mae'n dod â phobl at ei gilydd ac yn helpu'r gymuned i gefnogi ei hun.
- Mae'n adeiladu cysylltiadau, gwybodaeth, sgiliau a syniadau a all wella 'ysbryd', hunaniaeth a lles y gymuned.
- Gall hwyluso cydweithio rhwng cymunedau, sefydliadau lleol a gwahanol lefelau llywodraeth.
- Gall ysgogi'r economi leol, datblygu mentrau cymdeithasol newydd a chreu swyddi.
- Gall ganolbwyntio ar ddylunio a gwella mynediad at wasanaethau i bob aelod o'r gymuned.
- Mae'n caniatáu i gymunedau fynd i'r afael â heriau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol fel newid hinsawdd.




Yn fyr, gall Gweithredu Cymunedol helpu i gyrraedd holl nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (gyferbyn).

Gall cymunedau chwarae rhan weithredol ym mhob agwedd ar fywyd cyhoeddus. Er eu bod weithiau'n cael eu hystyried fel grwpiau y dylid 'ymgynghori' â nhw neu ar y gorau 'ymgysylltu' â nhw mewn penderfyniadau ar sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu, mae cymunedau yn aml yn cymryd rôl fwy gweithredol wrth ddylunio a chyflawni prosiectau a gwasanaethau.

Mae enghreifftiau cyffredinol o bethau y gall cymunedau eu gwneud yn cynnwys:

- Annog mwy o gyfranogiad cymunedol mewn mentrau sy'n amddiffyn ac yn gwella eu lleoedd a'r amgylchedd naturiol.
- Codi dyheadau i gyflawni mwy i'r gymuned.
- Cefnogi gwell defnydd o adnoddau ffisegol megis adeiladau cymunedol ac adeiladau sy'n eiddo i'r cyngor.
- Dylanwadu ar Lywodraeth Leol, Ymddiriedolaethau Iechyd a darparwyr gwasanaethau eraill i wella neu ymestyn eu gwasanaethau a helpu i gyd-ddylunio'r gwasanaethau hynny.
- Cymryd rheolaeth o adeiladau a'u rheoli er budd y cymunedau ('trosglwyddiadau asedau').
- Sefydlu rhwydweithiau i gefnogi pob math o bobl a gweithio mewn partneriaeth â grwpiau, sefydliadau a busnesau presennol i gyflawni prosiectau, gweithgareddau a gwasanaethau.

Wrth gwrs, mae cael cynllun clir, wedi'i dystiolaethu i helpu i fframio Gweithredu Cymunedol yn fuddiol – gweler Canllaw 1. Fel y trafodir yn y canllaw hwnnw, ni ddylai cynllun 'eistedd ar silff' - mae angen ei weithredu.

# Gweithredu'r Cynllun Kickstarter

## Rôl y Gweithgor

Er mwyn sicrhau bod Cynlluniau Cynefin Kickstarter (y 'Cynlluniau') wedi'u datblygu'n wirioneddol ac yn eiddo i'r gymuned, ffurfiwyd 'Gweithgorau Cynllunio Cymunedol' newydd yn y pedair tref.

Mae pob Gweithgor wedi'i ffurfio o tua 50% o Gynghorwyr Tref a 50% o Gynrychiolwyr Cymunedol - y rhai sydd â diddordeb mewn datblygu'r cynllun.

I ddechrau, bu'r Gweithgorau'n gweithredu fel Grŵp Llywio i oruchwylio datblygiad y cynllun. Ymhlith y cyfrifoldebau oedd:

- Codi ymwybyddiaeth o'r cynllun a gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned
- Sicrhau bod amrywiaeth o safbwyntiau cymunedol yn cael eu cynrychioli yn yr adborth
- Cymryd rhan mewn trafodaethau cychwynnol gyda rhanddeiliaid allweddol
- Cymryd rhan mewn sesiwn cynllunio gweithredu i adolygu blaenoriaethau'r gymuned a chytuno ar gyrsiau gweithredu cyffredinol ar gyfer y Cynllun.

Yn y sesiwn cynllunio gweithredu diwethaf, cytunodd pob Gweithgor y byddai'n parhau i weithredu, ac yn y flwyddyn gyntaf byddai'n:

- Cydlynu ymgynghoriad cymunedol ar fersiwn drafft o'r Cynllun.
- Cyfarfod o leiaf bob chwarter i oruchwylio a sicrhau bod y camau gweithredu o fewn y Cynllun yn cael eu cyflawni a phenodi Cadeirydd dros dro i sicrhau bod cyfarfodydd yn digwydd.
- Tyfu ei aelodaeth ei hun drwy wahodd unigolion, grwpiau a sefydliadau lleol i enwebu aelodau i ymuno.
- Annog y Cyngor Tref i fabwysiadu'r Cynllun i roi mwy o statws ac atebolrwydd cyhoeddus iddo, a gweithio'n agos gyda'r Cyngor Tref i helpu archwilio, darparu adnoddau a chyflawni blaenoriaethau cymunedol.
- Ystyried ffurfioli ei statws ei hun drwy ddod yn is-bwyllgor o'r cyngor tref neu ddod yn grŵp cyfansoddedig annibynnol.
- Cyfarfod â rhanddeiliaid i ymchwilio i'r hyn y gallai fod ei angen i gyflawni blaenoriaethau cymunedol.
- Casglu unrhyw wybodaeth bellach a thystiolaeth sylfaenol sydd eu hangen i ddatblygu'r Cynllun i fod yn Gynllun Cynefin neu'n Gynllun Cymunedol llawn.

- Edrych ar ddichonoldeb datblygu prosiectau penodol sy'n cyflawni blaenoriaethau cymunedol a gwneud cais am gyllid ar gyfer y prosiectau hynny lle bo hynny'n briodol.

## Dyfodol y Gweithgor



Penderfyniad pob gweithgor unigol yw ystyried ffurfioli statws y grŵp yn y tymor canolig a'r tymor hir. Ymhlith yr opsiynau cychwynnol y mae:

- **Ffurfio neu ymuno ag is-bwyllgor o'r Cyngor Tref**. Bydd gan bob Cyngor ei gyfansoddiad / is-ddeddfau ei hun a fydd yn llywio sut y gall hyn ddigwydd. Bydd yn fater i'w drafod gyda'r Cyngor Tref i'w ddatrys. Dylid o leiaf paratoi a chytuno ar Gylch Gorchwyl yr is-bwyllgor.

- **Dod yn grŵp cyfansoddedig annibynnol.** Bydd hyn o leiaf yn gofyn am baratoi Cylch Gorchwyl sy'n esbonio pwrpas a rôl y grŵp, ei aelodaeth a'i reolau ynghylch cyfarfodydd, ffyrdd o weithio ac unrhyw delerau eraill. Mae enghreifftiau a thempledi ar gyfer Cylch Gorchwyl ar gael o https://www.invo.org.uk/resource-for-researchers-templates/

Mae ystod eang o opsiynau ar gyfer statws y Gweithgor yn y dyfodol, gan gynnwys ffurfio Ymddiriedolaeth, Elusen, Cwmni Cyfyngedig, Sefydliad Budd Cymunedol neu hyd yn oed Menter Gymdeithasol. Yn y pen draw, gallai'r Gweithgor fod yn Gorff Llywodraethol ar gyfer pa bynnag sefydliad sy'n cael ei greu – mae mwy o wybodaeth ar gael gan: https://wcva.cymru/wp-content/uploads/2020/01/5.3-Board-Structures-and-Honorary-Officers.pdf

Pa bynnag lwybr sy'n cael ei gymryd, mae'n bwysig eich bod yn gofyn am gyngor priodol gan sefydliadau fel CVSC, ac os oes angen, cyngor cyfreithiol, cyn dod yn sefydliad cofrestredig.

Argymhellir hefyd bod pob Gweithgor yn ystyried enwebu a phenodi rolau penodol o fewn y sefydliad, o leiaf:

- Cadeirydd – er mwyn sicrhau bod cyfarfodydd yn cael eu trefnu, bod agendâu'n cael eu paratoi a chyfarfodydd yn rhedeg yn llyfn.

- Ysgrifennydd – i gymryd nodiadau o gyfarfodydd ac i gofnodi gweithredoedd a'r bobl sy'n gyfrifol am eu cyflawni.

## Ymgynghori ar Gynllun Kickstarter



Un o dasgau cyntaf y Gweithgor fydd adolygu'r Cynllun Kickstarter a goruchwylio ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynllun drafft. Penderfyniad pob Gweithgor unigol fydd ystyried sut a phryd y bydd hyn yn cael ei wneud, ond argymhellir o leiaf bod un neu fwy o ddigwyddiadau'n digwydd i 'lansio' yr ymgynghoriad a rhoddir cyfleoedd digonol i aelodau'r cyhoedd weld y cynllun, yn gorfforol ac ar-lein.

Mae modd i’r ymgynghoriad fod yn agored e.e. 'Beth ydych chi'n ei feddwl o'r cynllun hwn' neu’n fwy caeedig e.e. 'Ydych chi'n cytuno gydag Amcan 1, os ddim, pam'. Mae manteision ac anfanteision i'r ddau ddull, ond mae'n bwysig bod yn ymwybodol i) y mwyaf o gwestiynau sy'n cael eu gofyn y mwyaf o ddata sydd yna i brosesu ac ystyried a ii) po hiraf yr ymgynghoriad, yr arafaf fydd y cynllun yn cael ei weithredu.

Pa bynnag ffurf a dulliau o ymgynghori a ddewisir, dylai pob Gweithgor gynllunio i adolygu'r ymatebion a chytuno ar unrhyw newidiadau sydd eu hangen i'r cynllun. Yn y pen draw, cael y cynllun yn fyw a chanolbwyntio ar gyflawni'r camau yn y cynllun ddylai fod yn flaenoriaeth.

## Cyflawni camau gweithredu a monitro cynnydd



Unwaith y bydd y cynllun yn fyw, dylai'r Gweithgor glustnodi camau gweithredu i unigolion penodol neu ystyried ffurfio is-grwpiau er mwyn canolbwyntio ar gyflawni amcanion. Dylai'r Gweithgor gyfarfod o leiaf 4 gwaith yn ystod y flwyddyn gyntaf, ond byddai cyfarfodydd misol, o leiaf yn ystod y chwe mis cyntaf yn cael eu hargymell.

Ym mhob cyfarfod, dylai unigolion enwebedig sydd â chyfrifoldebau penodedig am gamau gweithredu ddarparu adroddiadau diweddaru ar y camau hynny.

## Dyfodol y Cynllun



Argymhellir, erbyn diwedd y flwyddyn gyntaf, bod adolygiad o'r cynllun yn digwydd sy'n arwain at naill ai i) greu cynllun gweithredu blwyddyn 2 neu ii) cynhyrchu Cynllun Cymunedol neu Gynllun Cynefin llawn.

Mae'r canllawiau eraill yn y gyfres hon yn rhoi mwy o wybodaeth am ddatblygu'r cynllun ymhellach, hwyluso mwy o ymgysylltu cymunedol a datblygu prosiectau. Mae'r canllawiau yn cynnwys:

1. Cynllunio Ymlaen Llaw: Cynllunio gyda'ch Cymuned
2. Cynlluniau Cynefin: Canllaw i Gymunedau
3. Ymgysylltu â'r Gymuned: Canllaw ar gyfer Cymunedau
4. Profi fo! Casglu Tystiolaeth dan Arweiniad y Gymuned
6. O Gynllun i Brosiectau: Datblygu a Chyllido Prosiectau dan Arweiniad y Gymuned.

Mae pob canllaw ar gael o [www.placeplans.org.uk/conwyguides](http://www.placeplans.org.uk/conwyguides)

# Ysbrydoliaeth

Mae gweddill y canllaw hwn wedi'i neilltuo i ddarlunio astudiaethau achos o Weithredu Cymunedol yng Nghymru a Lloegr.

**Ynni Cymunedol**



Mae ynni cymunedol yn rhywbeth cynyddol lle mae cynhyrchu ynni yn eiddo nid gan gwmnïau diwydiannol mawr ond gan gymunedau lleol, gyda'r elw yn cael ei fuddsoddi yn ôl i'r gymuned. Mae'r Energy Savings Trust (energysavingstrust.org.uk) wedi cefnogi nifer o brosiectau, gan gynnwys yng Nghymru ac maen nhw'n dweud: "*Mae ynni cymunedol i golygu grŵp o bobl yn dod at ei gilydd, cymryd camau a defnyddio adnoddau lleol i leihau, rheoli neu gynhyrchu eu hynni eu hunain. A oes adeiladau cyhoeddus yn eich cymuned, fel ysgolion neu glybiau chwaraeon, a allai fod â phaneli solar PV ar y to? Neu a oes gennych chi adnodd naturiol gerllaw, fel afon neu ben bryncyn gwyntog, y gellid ei ddefnyddio i gynhyrchu trydan gyda phrosiect hydro neu dyrbin gwynt?"*



Cododd cymuned yn Nadder, Wiltshire arian yn eu hardal leol trwy werthu cyfranddaliadau sy'n cael eu talu'n ôl dros gyfnod penodol, ynghyd â llog; defnyddir yr arian hwn i roi paneli solar neu systemau ynni adnewyddadwy eraill yn ein cymuned, e.e. busnesau neu ysgolion. Yn 2021 fe gynhyrchodd y cynllun oddeutu 472,458 KW o drydan a chodwyd dros £90,000 ar gyfer y gymuned. Mae peth o hyn yn cael ei ddosbarthu i gyfranddalwyr ac mae'r gweddill yn mynd i'w Cronfa Gymunedol ar gyfer prosiectau a grwpiau gwyrdd lleol.

https://www.nadderce.org.uk/

**Gwefru Ceir Trydan Cymunedol**: (Mae hwn yn cysylltu â'r enghraifft uchod!). Daw'r wybodaeth ganlynol gan gwmni preifat (SP Energy Networks) ond mae'r dull y maent yn ei awgrymu yn bwysig a gellid ei gymhwyso i faes parcio neuadd gymunedol er enghraifft. Maen nhw'n dweud: *"Fel gydag unrhyw fenter ynni cymunedol, gall pwyntiau gwefru EV ddarparu budd go iawn i ardaloedd lleol drwy gadw buddsoddiad a refeniw yn y gymuned leol. Mae'r manteision i ddefnyddwyr a gweithredwyr gorsafoedd gwefru EV yn dod hyd yn oed yn fwy amlwg os defnyddir ased ynni adnewyddadwy megis PVs solar neu dyrbinau gwynt i bweru'r gwefrwyr. Trwy bweru'n uniongyrchol o ased sy'n bodoli eisoes, gall gweithredwyr godi llai ac mae defnyddwyr cymunedol lleol yn talu llai. Mae budd hefyd fod y trydan yn 100% adnewyddadwy."*

## Parciau a mannau gwyrdd



**The Orchard Project** (orchardproject.org.uk): Mae gwefan y grŵp cenedlaethol hwn yn rhoi enghreifftiau o wirfoddolwyr cymunedol yn creu hen berllannau newydd neu adfer hen berllannau o amgylch y DU, gan gynnwys yng Nghymru: "*Rydyn ni wedi bod yn gyffrous iawn y gaeaf hwn i weithio gyda grwpiau lleol yng Nghymru yn dylunio rhai perllannau cymunedol newydd sbon. Mae'r rhain wedi'u lleoli mewn parciau lleol yn agos i ganol Abertawe ac o fewn tir Safle Ysbyty Treforys (hen erddi Fictorianaidd), ynghyd â pherllan yng ngardd bloc o dai â chefnogaeth ym Mhort Talbot".*



**Pocket Parks**: (https://www.oss.org.uk/pocket-parks-plus-great-opportunity-for-open-spaces/? Mae'r Open Spaces Society wedi cefnogi cymunedau i greu llawer o barciau bach ar draws y DU. Maen nhw'n dweud: *"Mae Pocket Parks yn galluogi i bobl greu mannau bach sy'n agos at ble maen nhw'n byw, neu i wella llefydd sy'n bodoli eisoes; efallai y byddan nhw hyd yn oed yn gallu prynu darn o dir a'i gofrestru fel grîn y dref neu'r pentref i'w ddiogelu am byth a rhoi hawliau hamdden i bobl leol yno."*

**Plannu coed:** Mae gan Lywodraeth Cymru gynllun i helpu unigolion a chymunedau i blannu coed: ewch i: https://gov.wales/plant-tree-help-tackle-climate-change. Dechreuodd yn 2022 a bydd yn parhau trwy 25 'hwb rhanbarthol' yn 2023.

Mae gan y Cyngor Coed grantiau ar gael ar gyfer plannu coed hefyd, ac mae hyn yn cynnwys grant penodol ar gyfer perllannau i ysgolion.

https://treecouncil.org.uk/what-we-do/planting-and-care/our-grants/



**Meysydd chwarae**: Mae Chwarae Cymru (playwales.org.uk) yn darparu cymorth a chefnogaeth ar gyfer creu a gwella meysydd chwarae, yn bennaf ond nid yn unig ar dir ysgolion. Mae gan eu gwefan hefyd ddolen i Becyn Cymorth ymarferol.

## Tai Fforddiadwy



Mae ymddiriedolaethau tir cymunedol – neu CLTs - yn sefydliadau democrataidd, dielw sy'n berchen ar dir ac yn ei ddatblygu er budd y gymuned.  Fel arfer, maent yn darparu cartrefi fforddiadwy, gerddi cymunedol, adeiladau dinesig, tafarndai, siopau, gofod gwaith a rennir, cynlluniau ynni a thirweddau cadwraeth.
https://www.communitylandtrusts.org.uk/

### *Homes of Our Own*

Mewn pentref bychan yn Wiltshire, mae'r Seend Community Land and Asset Trust (SCLAT) yn fenter sydd wedi'i phweru'n lleol, a gefnogir gan lywodraeth genedlaethol a lleol drwy *Homes of Our Own* (mae *Homes of Our Own* yn Hwb Tai dan Arweiniad y Gymuned i Wiltshire a Swindon), a'r *National Community Land Trust Network*. Mae cartrefi ym mhlwyf Seend wedi mynd yn ddrud iawn, ac adnabuwyd hyn fel mater lleol a allai effeithio ar yr ysgol leol a chyfleusterau eraill. Mae SCLAT wedi galluogi darparu 10 cartref fforddiadwy ar rhent marchnad a rhent cymdeithasol gyda rhywfaint o berchnogaeth a rennir. Mae SCLAT yn gweithio mewn partneriaeth â Chymdeithas Tai *White Horse*, a fydd yn adeiladu'r cartrefi. Bydd y cartrefi o fudd i'r gymuned ac yn fforddiadwy am byth.

https://www.seendclt.org/

### Cwmpas

Mae Cwmpas yn darparu cymorth ac arweiniad i gymunedau sydd am greu cynlluniau tai a arweinir gan y gymuned yng Nghymru. Am ragor o wybodaeth, ewch i: https://cwmpas.coop/what-we-do/services/co-operative-community-led-housing/

## Cludiant Cymunedol



**Cludiant Cymunedol**: CTA - y Gymdeithas Cludiant Cymunedol (https://ctauk.org/cciw/projects/) ledled y DU - mae ganddo brosiect 'Cysylltu Cymunedau yng Nghymru'. Rhwng 2017 a 2020, fe ddechreuon nhw ar 27 o brosiectau cludiant cymunedol ledled Cymru. Un ohonynt oedd 'Prosiect Bws Banc Galw'r Gyrrwr Hay'. Maen nhw'n dweud:

*"Yn dilyn cynllun peilot cychwynnol ac arolwg teithwyr, oedd yn tynnu sylw at angen penodol i bobl yn y gymuned i gael mynediad i fancio a gwasanaethau eraill, cyflwynodd Hay Galw'r Gyrrwr a thîm Cysylltu Cymunedau yng Nghymru gais llwyddiannus am arian i Gronfa Arian i Bawb y Loteri Fawr, a olygai y gallent ddarparu am ddim, wasanaeth Bysiau Banc misol sydd wedi bod o fudd mawr i'w teithwyr, gan ddarparu mynediad i fanciau, gwasanaethau hanfodol eraill a lleihau unigrwydd ac unigedd."*

## Mentrau Cymunedol

### Caffis Cymunedol

Dros 20 mlynedd yn ôl fe wnaeth pobl yn y Mwmbwls greu caffi cymunedol (http://www.redcommunityproject.org.uk). Mae wedi cael ei redeg gan bobl ifanc ac, yn ogystal â'r caffi, mae'r lleoliad bellach yn darparu cyrsiau Creu, nosweithiau ieuenctid a chreu ffilmiau.

### Partneriaeth Ogwen




Cyfunodd tri Chyngor Cymuned eu hadnoddau i gyflogi Swyddog Datblygu Prosiect Cymunedol i adeiladu Partneriaeth Ogwen, Menter Gymdeithasol sy'n gweithio er lles economi, amgylchedd a chymunedau Dyffryn Ogwen.

Fel Menter Gymdeithasol maen nhw'n:

- Darparu gwasanaethau clercio i'r Cynghorau Cymuned lleol
- Datblygu prosiectau adfywio cymunedol, economaidd ac amgylcheddol
- Rheoli eiddo a datblygu prosiectau trosglwyddo asedau cymunedol
- Cefnogi prosiectau sy'n creu cymuned iach, fywiog a chynaliadwy

Ers ei sefydlu, maent wedi agor nifer o swyddfeydd, siopau, fflatiau a llyfrgell gymunedol. Maent hefyd wedi datblygu prosiectau amgylcheddol ac wedi arwain ar ddatblygu cynllun hydro cymunedol Ynni Ogwen.

https://www.partneriaethogwen.cymru/en/

**Cletwr**

Mae Cwmni Cletwr yn brosiect cymunedol sydd wedi ail-agor hen Wasanaethau Cletwr yn Nhre’r Ddôl fel siop gymunedol, caffi a chanolbwynt cymunedol. https://cletwr.com/

**Y Dref Werdd: Blaenau Ffestiniog**




Mae Y Dref Werdd yn brosiect cymunedol amgylcheddol a sefydlwyd gyntaf drwy'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn 2006. Cafwyd cefnogaeth ariannol gan raglen Cymunedau yn Gyntaf drwy dalu costau staff, a fyddai'n troi syniadau'n realiti. Roedd y prosiectau yn cynnwys diogelu afon leol, gan alluogi i Flaenau Ffestiniog ddod yn dref Masnach Deg, sefydlu partneriaethau amrywiol i ofalu am barciau a mannau gwyrdd, datblygu rhandiroedd a chlybiau y tu allan i'r ysgol i blant - roedd y prosiect yn llwyddiant mawr.

Pan ddaeth rhaglen Cymunedau yn Gyntaf i ben, bu'n rhaid i Y Dref Werdd benderfynu sut allai'r prosiect barhau heb gyllid Cymunedau yn Gyntaf. Sefydlwyd y grŵp ei hun fel Cwmni Cyfyngedig drwy Warant a phenodwyd Bwrdd Cyfarwyddwyr i gefnogi ac i sicrhau bod Y Dref Werdd yn parhau.

Gan adeiladu ar wersi a ddysgwyd yn ystod cyfnod Cymunedau yn Gyntaf, gwnaed cais mynegiant o ddiddordeb i gronfa Pobl a Lleoedd y Loteri Fawr ar gyfer y prosiect "Datblygu Tref Werdd Ddyfeisgar". Yn gynnar yn 2015, wedi gwaith caled y gwirfoddolwr oedd yn Aelodau’r Bwrdd a chyda'r ymgynghoriad angenrheidiol ar gyfer y cais, rhoddwyd grant am dair blynedd o gyllid i redeg y prosiect a datblygu prosiectau penodol yn ardal Bro Ffestiniog, gan ganolbwyntio ar Ynni, Gwastraff Bwyd, Amgylchedd, a Sgiliau a Hyfforddiant.

Yn seiliedig ar lwyddiant y prosiect, dyfarnwyd cais pellach am grant gan y Loteri yn 2019 ac mae wedi ariannu prosiect 4 blynedd 'Gwarchod Cynefin Drwy Gynnal Cymuned'. Roedd y grant hwn yn ariannu 4 rôl yn Y Dref Werdd - dau weithiwr Lles, un Gweithiwr Prosiect Amgylcheddol a Rheolwr Prosiect. Ers hynny, diolch i grantiau bach amrywiol gan WCVA, Cyngor Gwynedd, Mantell Gwynedd a mwy, mae'r tîm bach hwn o 4 wedi tyfu i 11!

https://www.drefwerdd.cymru/en/home

# Diwylliant a Threftadaeth

### Gŵyl Fwyd Leol:



Cafodd Gŵyl Fwyd flynyddol Yr Wyddgrug ei chreu yn llwyddiannus yn 2006. Mae ffigyrau Gŵyl Fwyd yr Wyddgrug wedi dangos cynnydd cyson mewn niferoedd. Yn 2006, daeth 4500 o ymwelwyr i'r ŵyl ac roedd 39 o gynhyrchwyr lleol gyda stondinau, gan godi i 51 yn 2008. Erbyn 2013, roedd dros 100 o arddangoswyr stondinau o'r sector bwyd a diod, yn bennaf o ardal Yr Wyddgrug, wedi arwain at dros 13,000 o ymwelwyr i'r ŵyl gan ddenu nid yn unig pobl leol ond hefyd twristiaid. Rheolir Marchnad Ffermwyr yr Wyddgrug (digwyddiad misol) a Gŵyl Fwyd yr Wyddgrug gan bwyllgor sy'n cynnwys gwirfoddolwyr di-dâl sy’n rhanddeiliaid lleol, gyda chyfrifoldeb, trefnu a rheolaeth y digwyddiadau hyn yn cael eu cynnal ar sail gylchdroadol.

http://www.moldfoodfestival.co.uk/

### Prosiectau Celfyddydau

Celfyddydau Cymunedol Conwy (https://www.conwyartstrust.org/pages/events/category/previous-projects) yn hyrwyddo ac yn cefnogi prosiectau celfyddydol ar draws y Fwrdeistref.

### Llwybrau Tref:

Mae Cymdeithas Ddinesig Penarth a Chyngor Tref Penarth wedi cynhyrchu a chyhoeddi casgliad o lwybrau cerdded sydd ar gael yn rhad ac am ddim i drigolion ac ymwelwyr eu mwynhau. (Ewch i: https://www.penarthtowncouncil.gov.uk/penarth-town-trails/)





# Iechyd a Lles

### Gwella cyfleusterau Chwaraeon a Lles yn Llandrindod



Roedd Cyngor Tref Llandrindod eisiau archwilio'r potensial ar gyfer prosiect Chwaraeon a Lles yn y dref.  Eu nod oedd dod â'r holl grwpiau chwaraeon a lles yn Llandrindod ynghyd ac asesu'r cyfleusterau presennol, adnabod anghenion cymunedol lleol, ac adnabod unrhyw gyfle i gronni adnoddau.

Y nod cychwynnol oedd annog pobl i fod yn fwy gweithgar a gwella ein hiechyd a'n lles fel cymuned. Y weledigaeth hirdymor yw gweld y dref yn dod yn ganolbwynt chwaraeon i'r ardal wledig hon, gan ddod â bywiogrwydd ac egni newydd i'r dref sy'n cael ei heffeithio gan faterion tlodi ac amddifadedd.

Ymgysylltwyd ac ymgynghorwyd â sefydliadau a busnesau lleol sy'n darparu cyfleusterau chwaraeon a lles a / neu wasanaethau drwy holiadur cychwynnol ar-lein, ac yna gweithdy ar-lein. Roedd hyn er mwyn gwerthuso cyflwr y cyfleusterau presennol, a mesur lefelau defnydd cyfredol. Sicrhaodd hefyd fod y gwaith wedi ei fframio mewn ffordd a fyddai'n cefnogi ac o fudd i ddarparwyr presennol, yn aml yn dan arweiniad gwirfoddolwyr, o fewn y gymuned.

Er nad oedden nhw'n gallu cyfarfod wyneb yn wyneb oherwydd cyfyngiadau Covid, roedd yna ymateb gwych gan y gymuned. Yna, fe wnaethon nhw gynnal ymgynghoriad cymunedol eang i adnabod anghenion y trigolion lleol ac adnabod cyfleoedd ymarferol ar gyfer datblygiadau'r dyfodol. Yn olaf, ystyriwyd y materion a'r blaenoriaethau a adnabuwyd yn lleol ochr yn ochr â pholisi rhanbarthol a lleol (sy'n llywio cyllid a chefnogaeth), i adnabod opsiynau sy'n gyraeddadwy ac yn fuddiol i'r gymuned.

Adnabu’r prosiect awydd gwirioneddol am brosiect o'r math hwn ymhlith y gymuned leol a'r darparwyr gweithgareddau presennol, yn enwedig y 3ydd sector. Tynnodd sylw at restr fer o wahanol opsiynau prosiect a oedd yn mynd i'r afael ag anghenion a blaenoriaethau lleol, a byddai ganddo hefyd achos cryf dros fuddsoddi yn y dyfodol.Bydd y darn cychwynnol hwn o waith yn llywio cynlluniau'r Cyngor yn y dyfodol ac yn sail i'r ymdrechion yn y dyfodol i ddod o hyd i arian posibl er mwyn gallu gwireddu'r datblygiadau a/neu'r gwelliannau a adnabuwyd. Mae wedi arwain at waith i ddatblygu Parc Sglefrio newydd yn barod!!

### Big Local

Mae Big Local yn gynllun sy'n cael ei ariannu gan y loteri sydd wedi rhoi £1m i 150 o leoliadau difreintiedig ar draws Lloegr er mwyn sicrhau newid cadarnhaol i gymunedau. Mae angen gwario'r arian dros 10 mlynedd ar weithgareddau a mentrau sydd wedi eu hadnabod a'u harwain gan bobl leol. Mae hwn wirioneddol yn rhaglen dan arweiniad y gymuned.

[https://localtrust.org.uk/big-local/](https://localtrust.org.uk/big-local/)

# Cynlluniau Cymunedol a / neu Ymgynghoriadau

### Cynllun Cynefin y Drenewydd a Llanllwchaearn



Datblygwyd Cynllun Lle'r Drenewydd a Llanllwchaearn gyda'r gymuned leol ac mae'n nodi gweledigaeth y dref ar gyfer y cyfnod 15 mlynedd hyd at 2036.

Gyda chefnogaeth Cymorth Cynllunio Cymru, Stiwdio Lle a thîm Polisi Cynllunio Cyngor Sir Powys, datblygodd y Cyngor Tref y cynllun, y polisïau cynllunio cymunedol a'r prosiectau y mae'n eu cynnig yn seiliedig ar syniadau a barn y gymuned.

Gwnaed dros 7,000 o sylwadau gan drigolion drwy ddigwyddiadau rhanddeiliaid, digwyddiad Cynghorau Ysgol, arolwg cyhoeddus a digwyddiadau galw heibio. Mabwysiadwyd y Lle Pan yn 2021 gan Gyngor Sir Powys fel Canllawiau Cynllunio Atodol. https://newtown.org.uk/consultations/placeplan.html

### Cynllun Cynefin Llangollen




Mae'r grŵp 'Shape my Llangollen', sy'n gweithio ar ran y Cyngor Tref, wedi datblygu Cynllun Cymunedol ar gyfer Llangollen.  Fe wnaeth y grŵp ymgynghori'n eang gyda'r gymuned, ond roeddent yn ei chael hi'n anodd datblygu hyn yn Gynllun Gweithredu diffiniol.  Daethant â rhywfaint o arbenigedd allanol i adolygu'r gwaith presennol ac adnabod ffordd ymlaen, gan ddechrau gyda'i gilydd yn diffinio Gweledigaeth glir ac adnabod Nodau ac Amcanion penodol, yn seiliedig ar yr adborth gan y gymuned.

Ar ôl adnabod y rhanddeiliaid lleol a rhanbarthol allweddol, buont yn ymgysylltu â'r rhanddeiliaid drwy gyfres o weithdai rhyngweithiol ar-lein ar thema a ddaeth â chwaraewyr allweddol o sectorau megis tai, cyflogaeth, twristiaeth, cydlyniant cymunedol, gwasanaethau lleol, a'r amgylchedd ynghyd. A gyda'i gilydd fe ddatblygon nhw gynllun gweithredu realistig ac un y gellid ei gyflawni, ochr yn ochr â chynigion polisi a fyddai'n mynd i'r afael ag anghenion y gymuned sydd wedi'u hadnabod.

Mae'r cynllun terfynol i'w weld yma: https://pubhtml5.com/gaql/bmps/basic/